Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (CROESFAN REILFFORDD BUTTINGTON, BUTTINGTON CROSS, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458 wrth groesfan reilffordd Buttington, Buttington Cross, Powys, neu gerllaw iddi.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym o 22:00 o'r gloch ar 2 Mai 2015 hyd 07:30 o'r gloch ar 3 Mai 2015 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r A458 yn Buttington Cross sy'n ymestyn am bellter o 20 metr ar bob ochr i groesfan reilffordd Buttington.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fydd dilyn y B4388 tua'r de, y B4381 Leighton Road tua'r gorllewin, yr A483 tua'r gogledd a'r A458 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A458 TRUNK ROAD (BUTTINGTON LEVEL CROSSING, BUTTINGTON CROSS, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road at Buttington level crossing, Buttington Cross, Powys.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will be in force from 22:00 hours on 2 May 2015 until 07:30 hours on 3 May 2015 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding in the length of the A458 at Buttington Cross that extends for a distance of 20 metres either side of Buttington level crossing.

The alternative route for westbound vehicles will be via the southbound B4388, westbound B4381 Leighton Road, northbound A483 and eastbound A458: vice versa for eastbound vehicles.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE